

FINANCIAL CONDUCT AUTHORITY

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023–24

(ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024)

HC 202

Awdurdod Ymddygiad Ariannol
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023–24
(ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024)

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol â pharagraffau 11(4) a 15(3) o Atodlen 1ZA o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Ariannol 2012 a Deddf Gwasanaethau Ariannol (Diwygio Bancio) 2013

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 5 Medi 2024

HC 202



© Hawlfraint Awdurdod Ymddygiad Ariannol 2024

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn

Awdurdod Ymddygiad Ariannol

12 Endeavour Square

Llundain

E20 1JN

ISBN 978-1-5286-4826-4

E03103696 09/24

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

Cynnwys

1. Rhagair y Cadeirydd 6

2. Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr 8

Adroddiad strategol

3. Ein rôl 11

   Uchafbwyntiau 2023/24 12

4. Cynnydd ar ein hymrwymiadau strategol 13

   Ffocws 1:
   Lleihau ac atal niwed difrifol 14

   Ffocws 2:
   Gosod a phrofi safonau uwch 23

   Ffocws 3:
   Hyrwyddo cystadleuaeth a newid cadarnhaol 31


5. Ein hatebolrwydd 37

6. Adran 172 43

Pennod 1

Ashley Alder, Cadeirydd

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r flwyddyn ariannol gyflawn gyntaf ers i mi ymuno â'r FCA. Yn ystod y cyfnod, cyflwynwyd ychwanegiadau sylweddol i'n cylch gwaith, estyniad o'n hatebolrwydd allanol ac ehangu ein hamcanion statudol.



Ashley Alder, Cadeirydd

Bydd y newidiadau hyn, ynghyd â chyflwyno'r Ddyletswydd Defnyddwyr, yn helpu i benderfynu sut y gall yr FCA gyfrannu at iechyd a llwyddiant sector gwasanaethau ariannol y DU am flynyddoedd i ddod.

Fel corff llywodraethu'r FCA, mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau bod cyfeiriad, galluoedd ac adnoddau strategol cyffredinol y sefydliad yn gyson â'r datblygiadau hyn, wrth iddynt esblygu ac ymgorffori yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol iawn o gyfrifoldeb yr FCA i lunio a gweithredu rheoleiddio o fewn amgylchedd economaidd a geowleidyddol anarferol o ansicr ac sy'n symud yn gyflym.

O ddiwedd 2021, arweiniodd y newid cyflym i gyfraddau llog uwch mewn ymateb i gynnydd mewn chwyddiant, at risgiau uwch mewn marchnadoedd ariannol a phwysau costau byw newydd i ddefnyddwyr. Er bod chwyddiant wedi lleihau a chyfraddau llog wedi gostwng, mae'r pwysau hyn yn parhau i fod yn llym i lawer, gyda defnyddwyr bregus yn aml yn ei chael hi'n anodd fforddio ad-daliadau morgais a rhwymedigaethau ariannol eraill.

Adlewyrchwyd ffactorau risg macro uwch ym methiannau ychydig o fanciau sydd â'u pencadlys dramor y llynedd. Amlygodd y penodau hyn pam mae gallu i gyfyngu argyfwng yn gyflym, gan weithio'n agos gyda'n partneriaid domestig a thramor, yn parhau i fod yn nodwedd hanfodol o reoleiddio effeithiol. Yn ehangach, mae'r twf sylweddol mewn darpariaeth credyd i fusnesau a defnyddwyr gan gwmnïau sy'n gweithredu y tu allan i'r system fancio draddodiadol, wedi arwain i reoleiddwyr roi sylw arbennig i risgiau mewn meysydd mwy anhryloyw o weithgaredd mewn marchnadoedd preifat ac eraill nad ydynt yn rhai banc. Mae'r FCA yn chwarae rhan flaenllaw yn natblygiad polisi domestig a rhyngwladol yn y maes hwn.

Bellach mae gan yr FCA amcan eilaidd newydd i hwyluso cystadleurwydd rhyngwladol a thwf economaidd y DU. Mae'r farchnad a sylwebaethau eraill, yn ddealladwy, wedi canolbwyntio ar sut y bydd yr amcan hwn yn gweithredu'n ymarferol. Bydd y Bwrdd yn parhau i weithio gydag arweinyddiaeth weithredol yr FCA i fframio cyfeiriad strategol yr FCA mewn modd sy'n sicrhau aliniad priodol rhwng ein prif ddefnyddiwr, amcanion cystadleuaeth a chywirdeb y farchnad a'r amcan eilaidd newydd.

Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor bod rheoleiddio annibynnol, atebol yn hanfodol i fwy o ymddiriedaeth a hyder ar draws gwasanaethau ariannol y DU. Mae hyn yn cynrychioli piler hanfodol o gystadleurwydd byd-eang parhaus ac mae'n amod angenrheidiol ar gyfer llwyddiant mentrau penodol a gynlluniwyd i hwyluso buddsoddiad busnes a sicrhau gwell canlyniadau i ddefnyddwyr.

Mae'r mentrau hyn yn cynnwys cynigion pellgyrhaeddol ar gyfer diwygio marchnadoedd cyfalaf ecwiti y DU, megis rheolau newydd ar gyfer y drefn restru, er mwyn hwyluso mynediad haws i ffynonellau cyfalaf gan gwmnïau sy'n dymuno ymuno â'n marchnadoedd cyhoeddus. Rydym hefyd yn gwneud cynnydd sylweddol yn y rhaglen aml-flwyddyn i ddisodli cyfraith yr UE wedi'i chymhathu â rheoleiddio domestig yr FCA. Wrth wneud hynny, rydym wedi nodi'n glir y dylai egwyddorion cymesuredd a mynd ar drywydd arloesi diogel, graddadwy ond uchelgeisiol lywio ein dull cyffredinol o ddatblygu polisi.

Mae cyfranogiad agos yr FCA wrth greu safonau rheoleiddio rhyngwladol hefyd yn cyd-fynd â'n hamcan cystadleurwydd a thwf; rydym am ddileu ffrithiant diangen a allai gyfyngu ar y llif a'r gwasanaethau buddsoddi trawsffiniol sy'n tanlinellu sefyllfa'r DU fel canolfan ariannol fyd-eang flaenllaw.

Mae darparu effeithlonrwydd gweithredol gwell yn parhau i fod yn flaenoriaeth, fel y gwelir mewn gwelliannau sylweddol yn lefelau gwasanaeth Awdurdodi yn ystod y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen i sicrhau cydbwysedd rhwng y baich cydymffurfio ar wahanol fathau a meintiau o gwmnïau ac FCA sy'n cael ei hysbysu'n briodol, yn bendant ac yn ystwyth i fynd i'r afael ag achosion posibl a gwirioneddol o niwed.

Mae'r Ddyletswydd Defnyddwyr yn cael ei hystyried yn eang - ac yn briodol – fel diwygiad nodedig, gan nodi newid sylfaenol i fframwaith rheoleiddio sy'n pwysleisio gwell canlyniadau i'r miliynau o bobl sy'n dibynnu ar y diwydiant ariannol am eu lles economaidd. Bydd yr FCA yn mynd ar drywydd gweithredu'r Ddyletswydd mewn modd sy'n gyson ac yn gymesur, gan hyrwyddo cystadleuaeth iach ymhlith cwmnïau er budd defnyddwyr.

Mae'r ddyletswydd yn cysylltu â'n cynigion i fynd i'r afael â'r ffaith bod cyngor ariannol wedi'i reoleiddio, personol ar gael i leiafrif o fuddsoddwyr cyfoethocach yn unig. Mae'r cyngor neu'r bwlch 'help' sy'n deillio o hyn yn rhoi miliynau o gynilwyr manwerthu heb gymorth sy'n wynebu dadgrynhoi pensiwn cymhleth a dewisiadau eraill sy'n hanfodol i'w diogelwch ariannol. Mae'r gwaith hwn yn arbennig o berthnasol i heriau a achosir gan gymdeithas sy'n heneiddio.

Bydd dewisiadau polisi terfynol i gau'r bwlch cyngor hwn yn cynnwys cwestiynau am hyfywedd masnachol, fforddiadwyedd, derbyn risg a chyfaddawdau eraill; dyma un o sawl maes lle mae'r FCA yn edrych ymlaen at weithio mewn partneriaeth

Mae'r FCA yn chwarae rhan flaenllaw yn natblygiad polisi domestig a rhyngwladol yn y maes hwn.

â'r Panel Dadansoddi Cost Buddion annibynnol sydd newydd ei sefydlu.

Mae llawer o'r mentrau marchnad defnyddwyr a chyfanwerthu hyn yn ymwneud ag amcanion polisi ehangach a gyfeiriwyd at ysgogi cronfeydd pensiwn a chynilon preifat yn fwy effeithiol i wella ffurfiant cyfalaf i gefnogi busnesau'r DU, lle mae gan yr FCA, awdurdodau eraill a'r sector preifat rolau pwysig i'w chwarae.

Mae'r FCA yn aml yn gosod y cyflymder ar gyfer mentrau a fabwysiadwyd wedyn gan reoleiddwyr tramor, yn amrywio o'n dull a arweinir gan ddata, blychau tywod a gwasanaethau arloesi eraill, i'r Gyfundrefn Uwch Reolwr ac Ardystio a mesurau gwrth-wyrddgalchu. Erbyn hyn mae cryn ddiddordeb rhyngwladol yn y ffordd y gall y Ddyletswydd Defnyddwyr sy'n seiliedig ar ganlyniadau weithredu i ailosod y berthynas rhwng rheoleiddio, cwmnïau a defnyddwyr er budd cyffredinol pawb sy'n rhyngweithio â gwasanaethau ariannol. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd yr FCA yn parhau i gael ei ystyried yn arloeswr rheoleiddio blaenllaw yn y byd ymhell i'r dyfodol, gan osod y safonau i eraill eu dilyn.

Rwy'n arbennig o ddiolchgar i gyd-aelodau'r Bwrdd am eu gwaith caled a'u mewnwelediadau gwerthfawr yng nghanol amgylchedd economaidd a pholisi anodd, ac i uwch dîm arweinyddiaeth yr FCA a'r holl staff eraill y mae eu creadigrwydd a'u hymroddiad i wasanaeth cyhoeddus yn esbonio pam bod y DU yn cael ei hystyried fel y gyfundrefn reoleiddio a ffefrir ledled y byd.



Ashley Alder
Cadeirydd

Pennod 2

Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr

Ychydig dros flwyddyn yn ôl, pasiodd y Senedd Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2023. Mae hyn yn galluogi i'r FCA ddisodli rheolau'r UE blaenorol a oedd yn llywodraethu sector ariannol y DU gyda chyfundrefn reoleiddiol wedi'i theilwra'n fwy i farchnadoedd y DU.



Nikhil Rathi, Prif Weithredwr

Mae hefyd yn gosod amcan eilaidd newydd i ni i hwyluso cystadleurwydd a thwf rhyngwladol economi'r DU yn y tymor canolig i'r tymor hir, tra'n cyd-fynd â safonau rhyngwladol.

Mae'r gyfraith newydd wedi ffurfio'r cefndir ar gyfer llawer o'r hyn rydym wedi'i gyflawni yn 2023/2024 - o ddiwygio cyfundrefn marchnadoedd cyfalaf cyfanwerthol y DU i nodi diwedd LIBOR, o amddiffyniadau llymach i ddefnyddwyr sy'n prynu cryptoasedau i sicrhau y gall pobl ledled y DU barhau i gael gafael ar arian parod.

Mae wedi ehangu ein cylch gwaith a chryfhau ein hatebolrwydd. Rwy'n falch o'r ffordd yr ydym wedi ymateb i'r her. Fel y dengys yr adroddiad blynyddol hwn, rydym wedi cael effaith sylweddol ar draws pob un o'n pedwar amcan statudol gan weithio mewn partneriaeth agos â llawer o rai eraill.

Cymerwch amddiffyniad defnyddwyr. Mae dros 52 miliwn o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ariannol bellach yn elwa o'r Ddyletswydd Defnyddwyr, a ddaeth i rym fis Gorffennaf diwethaf ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau weithredu i sicrhau canlyniadau da i gwsmeriaid manwerthu. Mae eisoes yn cael effaith gadarnhaol. Er enghraifft, mae 37% o gwmnïau cynghori wedi newid eu strwythur ffioedd i sicrhau eu bod yn cynnig gwerth teg. Ac nid defnyddwyr yn unig fydd yn elwa o hyn. Fel rheoliad sy'n seiliedig ar ganlyniadau, mae'n rhoi lle i gwmnïau arloesi a chystadlu yn seiliedig ar safonau uchel a ddylai helpu i dyfu ein sector gwasanaethau ariannol ac adeiladu ymddiriedaeth ynddo.

Nid ydym wedi stopio ar hynny. Rydym yn gwneud mwy i sicrhau bod gan ddefnyddwyr y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud y dewisiadau cywir ar eu cyfer, megis dwyn cyhuddiadau yn erbyn dylanwadwyr cyfryngau cymdeithasol sy'n lledaenu hyrwyddiadau ariannol heb awdurdod, ac atal dros 10,000 o hysbysebion a allai fod yn gamarweiniol. Rydym wedi gweithio gyda'r Llywodraeth ar adolygu'r ddarpariaeth o gyngor ariannol fel bod defnyddwyr yn cael yr help y maent ei eisiau, ar adeg y maent ei angen ac ar gost sy'n fforddiadwy.

Rydym wedi parhau i ddiogelu a gwella uniondeb system ariannol y DU. Fe wnaethom ganslo awdurdodaeth 1,261 o gwmnïau yn 2023/24, dwbl y flwyddyn flaenorol, gan sicrhau mai dim ond y cwmnïau hynny sy'n bodloni ein safonau uchel sy'n parhau i weithredu gyda'n caniatâd. Fe wnaethon ni gyhuddo 21 o unigolion â throseddau ariannol, y nifer uchaf o gyhuddiadau rydyn ni wedi'u gwneud mewn blwyddyn ac wedi dwyn 9 erlyniad llwyddiannus yn erbyn twyllwyr. Rydym wedi bwrw

Fe wnaethom ganslo awdurdodaeth 1,261 o gwmnïau yn 2023/24, dwbl y flwyddyn flaenorol, gan sicrhau mai dim ond y cwmnïau hynny sy'n bodloni ein safonau uchel sy'n parhau i weithredu gyda'n caniatâd.

ymlaen â diwygiadau sylweddol i'r marchnadoedd cyfanwerthol, gyda rheolau terfynol ar gyfer trefn restru symlach, mwy o opsiynau ar sut i dalu am ymchwil buddsoddi a thâp cyfunol ar gyfer bondiau.

Rydym wedi hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr. Yr haf diwethaf, fe wnaethon ni dynnu sylw at y marchnadoedd cynilo arian parod a nodi cynllun gweithredu 14 pwynt i gael gwell bargen i gynilwyr. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod cyfraddau mynediad hawdd ar gyfartaledd wedi cynyddu i 2.12% ym mis Ebrill 2024, gyda 171 o gyfrifon cynilo mynediad hawdd yn cynnig cyfraddau llog uwch na 4% ym mis Mai 2024. Rydym hefyd wedi edrych yn ofalus ar effaith cwmnïau technoleg mawr sy'n dod i mewn i'r marchnadoedd gwasanaethau ariannol ac wedi ymrwymo i sicrhau bod cystadleuaeth yn esblygu'n effeithiol.

Mae cyflawni pob un o'r prif amcanion hyn yn llwyddiannus ynddynt eu hunain yn ein helpu i gyflawni ein hamcan eilaidd oherwydd eu bod yn magu hyder yn sector gwasanaethau ariannol y DU, yn cynyddu ymddiriedaeth, ac yn mynd i'r afael â'r niwed fel troseddau ariannol, a all fod yn fwrn ar dwf. Mae ein ffocws ar atal niwed wedi helpu i leihau ardoll y Cynllun lawndal Gwasanaethau Ariannol i'w lefel isaf ers 10 mlynedd. Rydym hefyd yn helpu'r sector i arloesi, gyda chwmnïau sy'n cymryd rhan yn ein blwch tywod 50% yn fwy tebygol o godi arian a mwy na 110 o gyfoedion rheoleiddio byd-eang yn mabwysiadu'r model blwch tywod, gan atgyfnerthu safle'r DU fel yr awdurdodaeth flaenllaw o blaid arloesi. Ac, fel y dengys ein hadroddiad ar wahân ar sut yr ydym wedi cyfrannu at gystadleurwydd y DU, rydym wedi mynd ymhellach ac, lle bynnag y bo'n bosibl, rydym wedi ceisio cyflawni ein prif amcan mewn ffordd sy'n sicrhau canlyniadau o blaid twf a chystadleurwydd rhyngwladol.

Mae cyflawni hyn i gyd yn gofyn am weithlu arloesol, ystwyth a gwydn, wedi'i alluogi gyda'r dechnoleg gywir. Rydym yn parhau i wneud camau breision i drawsnewid yr FCA. Ym mis Medi'r llynedd, gwnaethom gyrraedd cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn ein huwch dîm arweinyddiaeth cyn ein targed yn 2025. Eleni rydym wedi gweld gwelliannau yn ein holl fylchau cyflogau, gyda gostyngiadau sylweddol i'n bylchau cyflog canolrifol ethnigrwydd ac anabledd. Mae ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau i lawr i 11.5%, ethnigrwydd 13.0% ac anabledd 3.3%.

Mae ein presenoldeb ar draws y Deyrnas Unedig hefyd yn tyfu. Agorom swyddfa yn Leeds yn 2022 ac ymrwymwyd yn gyhoeddus i greu dros 100 o swyddi newydd erbyn diwedd mis Mawrth 2023. Ar hyn o bryd mae gennym bron i 240 o gydweithwyr yn Leeds ac yn ddiweddar rydym wedi cyhoeddi y byddwn yn seilio 100 o swyddi pellach yno.

Yn Mansion House fis Tachwedd diwethaf, dywedais fod yn rhaid i ni gydweithio i gystadlu. Ac rydyn ni wedi gwneud hynny hefyd.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid rheoleiddio a gorfodi'r gyfraith yn y DU, p'un a yw hynny'n gosod disgwyliadau cyson i gwmnïau mewn sawl sector o sut y dylent gefnogi defnyddwyr sy'n cael trafferth gyda chostau byw cynyddol, neu lansio canolfan ddigidol ac AI newydd fel y gall arloeswyr dderbyn cyngor anffurfiol am ddim gan bedwar rheoleiddiwr, i gyd mewn un lle.

Rydym yn parhau i chwarae rhan flaenllaw yn rhyngwladol - gan lunio'r safonau byd-eang ar crypto, cynaliadwyedd, a chyllid nad ydynt yn fanc i enwi ond ychydig.

Rydym wedi galw am fwy o drafodaeth gymdeithasol ar risg, gan gydnabod bod treialu a chamgymeriadau yn rhan o arloesi. Os ydym am i'r DU gynnal ei ochr gystadleuol ryngwladol, yna mae angen i ni fod yn fentrus a derbyn na fyddwn yn atal pob methiant, ac na ddylem geisio gwneud hynny.

Rydyn ni'n fwy hyderus ac yn fwy clir o'r hyn y gallwn ni ei wneud a'r hyn na allwn ei wneud. Fel unrhyw ecosystem, mae sawl actor yn y sector gwasanaethau ariannol. Mae gan rai, fel ni, rôl fwy i'w chwarae nag eraill. Ond mae'n rhaid i bob un wneud ei ran er mwyn i'r sector lwyddo.

Fel yr ydym wedi dangos eleni, rydym wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi a chydbwyso gwahanol anghenion defnyddwyr, busnesau a'r economi ehangach, gan alluogi i bawb ffynnu. Rwy'n ddiolchgar iawn i fy holl gydweithwyr yn yr FCA am eu hymrwymiad a'u gwaith caled.

Rydym yn parhau i chwarae rhan flaenllaw yn rhyngwladol - gan lunio'r safonau byd-eang ar crypto, cynaliadwyedd, a chyllid nad ydynt yn fanc i enwi ond ychydig.



Nikhil Rathi
Prif Weithredwr

Pennod 3

Ein rôl

Ein nod strategol	**Sicrhau bod y marchnadoedd yr ydym yn eu rheoleiddio yn gweithio'n dda**
Ein hamcanion gweithredol	Sicrhau lefel briodol o ddiogelwch i ddefnyddwyr Diogelu a gwella uniondeb system ariannol y Deyrnas Unedig Hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr
Ein nod eilaidd	Hwyluso cystadleurwydd a thwf rhyngwladol economi'r DU yn y tymor canolig i'r tymor hir
Pwy rydyn ni'n ei reoleiddio	Rydym yn rheoleiddio ymddygiad bron i 42,000 o fusnesau yn y DU i sicrhau bod marchnadoedd ariannol yn gweithio'n dda. Mae ein perimedr yn pennu'r hyn rydym yn ei reoleiddio a ddim yn ei reoleiddio ac fe'i gosodir gan y llywodraeth a'r senedd (gweler ein hadroddiad perimedr). Rydym hefyd yn gyfrifol am gofrestru cymdeithasau cydfuddiannol. Gellir dod o hyd i'n swyddogaeth gofrestru cymdeithasau cydfuddiannol 2023/24 yma.
Ein swyddogaethau – sut rydym yn rheoleiddio i gyflawni ein hamcanion	Gwneud rheolau a rhoi arweiniad i osod safonau ar gyfer cwmnïau Awdurdodi, cofrestru a chymeradwyo cwmnïau ac unigolion, gwirio eu bod yn bodloni safonau Goruchwylio cwmnïau ac unigolion i sicrhau eu bod yn dilyn ein rheolau a'n canllawiau Gorfodi yn erbyn cwmnïau ac unigolion pan nad ydyn nhw'n dilyn ein rheolau a'n canllawiau



Ein Strategaeth 2022-2025 a'n Cynllun Busnes



Uchafbwyntiau 2023/24

Diogelu defnyddwyr

Atal hysbysebion camarweiniol

Tynnu neu ddiwygio dros 10,000 o hysbysebion a allai fod yn gamarweiniol, cynnydd o

16.6%

Cryptoasedau amddiffyniadau defnyddwyr ychwanegol

- ✓ Rhybuddion risg gwell
- ✓ Cyfnod oeri 24 awr
- ✓ Asesu priodoldeb cynnyrch ar gyfer defnyddwyr unigol

Ymwybyddiaeth cadw'n effro

2,285

o rybuddion yn erbyn cwmnïau ac unigolion heb awdurdod, i fyny 21%

Penderfyniadau dan arweiniad

63%

o ddefnyddwyr a gysylltodd â ni am sgamiau posibl yn 2023, wedi gwneud hynny cyn buddsoddi, i fyny o 58% y flwyddyn flaenorol

Amddiffyn a gwella uniondeb y farchnad

Dirwyon troseddau ariannol

- ✓ ADM Investor Services International Limited wedi cael dirwy o £6.4m

Awdurdodi cwmnïau

1,261

o awdurdodiadau cwmnïau wedi'u canslo, wedi dyblu o 2022/23

Rheolaethau gwyngalchu arian

Dros 87%

o gofrestriadau Crypto wedi'u tynnu'n ôl, eu gwrthod neu eu nacau am reolaethau gwyngalchu arian gwan

Hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol

Arferion teg

- ✓ Wedi gyrru gwelliannau yn y farchnad cynilo arian parod gyda chyfraddau llog gwell i gynilwyr a gwell perfformiad trosglwyddo ISA arian parod

Astudiaeth farchnad gwybodaeth credyd

- ✓ Cymryd camau i gryfhau'r farchnad gwybodaeth credyd trwy ddiwygiadau llywodraethu diwydiant a fydd yn gwella canlyniadau i ddefnyddwyr yn y pen draw

Cystadleurwydd a thwf rhyngwladol

Effeithlonrwydd awdurdodi

98% o achosion awdurdodi yn cael eu hasesu o fewn terfynau amser statudol, i fyny o 89% yn Ch1 2022/23

Hybu arloesedd

Mae ein blwch tywod digidol bellach ar agor yn barhaol – mae cwmnïau sy'n cymryd rhan yn ein blwch tywod yn

50% yn fwy tebygol o godi arian, ac ar gyfartaledd wedi codi 15% yn fwy na set gyfatebol o gwmnïau rheoli

Pennod 4

Cynnydd ar ein hymrwymiadau strategol

Mae'r bennod hon yn diweddaru ar sut rydym wedi cyflawni yn erbyn ein hamcanion gweithredol trwy ein hymrwymiadau trawsbynciol 13 yn ein Strategaeth 3 blynedd.

Rydym yn adrodd ar sut mae ein gweithredoedd yn helpu i greu'r amodau ar gyfer gwasanaethau ariannol i gyflawni'r canlyniadau rydym yn eu disgwyl, a helpu i godi ymddygiad a disgwyliadau, fel bod cwmnïau'n cyflawni'n gyson a defnyddwyr yn cael cynhyrchion a gwasanaethau o ansawdd uchel.

Ffocws 1: Lleihau ac atal niwed difrifol

- Delio â chwmnïau problemus
- Gwella'r fframwaith unioni
- Lleihau niwed o fethiant cwmnïau
- Gwella Goruchwylio Cynrychiolwyr Penodedig
- Lleihau ac atal troseddau ariannol
- Gweithredu pendant ar gam-drin y farchnad

Ffocws 2: Gosod a phrofi safonau uwch


- Rhoi anghenion defnyddwyr yn gyntaf
- Galluogi i ddefnyddwyr helpu eu hunain
- Strategaeth ar gyfer newid cadarnhaol: ein blaenoriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG)
- Lleihau effaith tarfu gweithredol

Ffocws 3: Hyrwyddo cystadleuaeth a newid cadarnhaol

- Paratoi gwasanaethau ariannol ar gyfer y dyfodol
- Cryfhau sefyllfa'r Deyrnas Unedig mewn marchnadoedd cyfanwerthol byd-eang
- Llunio marchnadoedd digidol i gyflawni canlyniadau da


Canlyniadau rydym yn disgwyl i wasanaethau ariannol eu cyflawni

- Gwerth teg
- Hyder
- Addasrwydd a thriniaeth
- Mynediad



Ffocws 1:
Lleihau ac atal niwed difrifol

Rydym yn amddiffyn defnyddwyr rhag niwed trwy ganolbwyntio ar 6 ymrwymiad.



Delio â chwmnïau problemus

Rydym am i gyfranogwyr defnyddwyr a'r farchnad fod yn hyderus bod cwmnïau sy'n methu â bodloni ein hamodau gofynnol yn cael eu hadnabod a'u canslo'n gyflym. Dylent hefyd ymddiried ein bod yn ymyrryd i atal niwed yn gyflym.

Rydym wedi parhau i wella sut rydym yn canfod cwmnïau ac unigolion problemus. Mae hyn yn cynnwys gwella un o'n hoffer dadansoddi, felly caiff cydweithwyr eu rhybuddio pan fydd cwmnïau'n methu â chyflawni eu rhwymedigaethau rheoleiddio. Mae hyn yn galluogi ymyrraeth gynharach.

Cafodd 1,261 o awdurdodiadau cwmnïau eu canslo, wedi dyblu o 2022/23. Gwnaethom ddefnyddio ein pwerau i ymyrryd yn uniongyrchol yn erbyn 34 o gwmnïau lle'r oedd gennym bryderon difrifol, i fyny 68% ers 2022. Fe wnaethom ymyrryd ar 268 o achlysuron eraill (Gorffennaf 2023 i Fawrth 2024), megis trwy ofynion gwirfoddol neu adolygiadau pobl fedrus.

Fe wnaethom hefyd helpu defnyddwyr drwy sicrhau bod y gofrestr gwasanaethau ariannol yn cael ei diweddaru. Mae hyn yn golygu y gall pobl wirio beth mae'r cwmni y maent yn ymwneud ag ef yn cael ei reoleiddio i'w wneud a'u hamddiffynfeydd wrth wneud busnes gyda nhw.

Mae 78% o gwmnïau'n ymwybodol ohonom yn tynnu caniatâd yn ôl (i fyny o 2022/23). Mae bron pob cwmni (94%) yn parhau i fod yn gyfarwydd â'n hamodau gofynnol i'w hawdurdodi.

Cafodd 1,261 o awdurdodiadau cwmnïau eu canslo, wedi dyblu o 2022/23.

Gwella'r fframwaith unioni

Ein nod yw system unioni y mae defnyddwyr yn deall sut i gael mynediad ati, ac sy'n darparu datrysiad ac iawndal amserol a theg i gwyno. Dylai cwmnïau sy'n achosi niwed fod yn fwy tebygol o ysgwyddo costau iawndal a dylai cwmnïau rheoli hawliadau sicrhau gwerth teg.

Mae cwmnïau benthyca yn talu bron i £60m i fenthycwyr sydd mewn trafferthion ariannol.

Rydym yn ymyrryd yn bendant i sicrhau bod cwmnïau'n digolledu defnyddwyr, pan fydd pethau'n mynd o chwith. Er enghraifft, eleni gwnaethom ymyrryd â bron i 100 o gwmnïau benthyca i sicrhau eu bod yn cefnogi benthycwyr mewn anhawster ariannol ac rydym yn disgwyl y bydd tua 270,000 o gwsmeriaid yn derbyn bron i £60m mewn iawndal.

Rydym hefyd wedi mynd i'r afael ag achosion sylweddol i helpu pobl y mae ymddygiad cwmnïau unigol wedi niweidio eu bywydau. Fe wnaethom sicrhau iawndal gwerth hyd at £230m ar gyfer dros 250,000 o fuddsoddwyr yng Nghronfa Incwm Ecwiti LF Woodford. Gwnaethom sicrhau bod gweithwyr dur, a gafodd eu cynghori'n wael i drosglwyddo allan o gynllun pensiwn Dur Prydain, yn cael cyfle i gael eu rhoi yn ôl yn y sefyllfa ariannol y byddent wedi bod ynddi ar eu hymddeoliad.

Gan gyflawni ein nod i sicrhau bod y rhai sy'n achosi niwed yn talu'r gost, gwnaethom wahardd 15 unigolyn a gyflwynodd gyngor gwael rhag gweithio mewn gwasanaethau ariannol neu ddal rôl benodol, a gosod dirwyon neu daliadau gwarantedig o £8.87m i'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS), er bod rhai materion wedi'u cyfeirio at yr Uwch Dribiwnlys.

Cynigion newydd i sicrhau bod llygrwr yn talu

Mae camau pendant i unioni niwed yn y gorffennol yn ategu'r gwaith yr ydym yn ei wneud i wella pethau yn y dyfodol. Rydym wedi ymgynghori ar gynigion i sicrhau bod mwy o gwmnïau buddsoddi personol yn talu'r iawndal sy'n ddyledus am unrhyw niwed y maent yn ei achosi trwy neilltuo mwy o gyfalaf, a thrwy hynny leihau hawliadau ar yr FSCS, a ddylai fod o fudd i gwmnïau, defnyddwyr a'r farchnad ehangach sy'n talu ardollau.

Cost ardoll ar gwmnïau am gynllun iawndal i lawr £92m

Ein nod yw lleihau'r ardoll a godir dros amser ar gwmnïau i ariannu'r FSCS - gostyngodd o £625m yn 2022/23 i £270m yn 2023/24. Mae'r FSCS hefyd wedi gweld gostyngiad mewn hawliadau newydd a chostau iawndal a chynnydd mewn enillion gan gwmnïau sydd wedi methu.

Gwnaethom adolygu rheolau ynghylch a all busnesau bach gael mynediad at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol (FOS) a daethom i'r casgliad bod y system bresennol yn gweithio, gyda dros 99% o'r 5.6m o fusnesau sector preifat yn y DU yn cael eu cynnwys.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r FSCS, y FOS a phartneriaid eraill i sicrhau bod defnyddwyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae hynny wedi cynnwys dros 20 o ddigwyddiadau ar y cyd mewn cymunedau gweithwyr dur i egluro cynllun unioni pensiwn dur Prydain.

Fe wnaethom sicrhau iawndal gwerth hyd at £230m ar gyfer dros 250,000 o fuddsoddwyr yng Nghronfa Incwm Ecwiti LF Woodford.



Llai o gwmnïau rheoli hawliadau sy'n ymgymryd â gweithgarwch heb ei reoleiddio

Fe wnaethom adolygu 26 o gwmnïau rheoli hawliadau i asesu a oeddent yn defnyddio eu hawdurdodiad FCA i farchnata eu gwasanaethau heb eu rheoleiddio, a allai gamarwain defnyddwyr ynghylch lefel yr amddiffyniad sydd ganddynt ar gyfer y gwasanaethau hynny. Eglurodd ein gweithred ein disgwyliadau ar gwmnïau. Peidiodd llawer â chyflawni gweithgareddau rheoli hawliadau heb eu rheoleiddio ac eraill a oedd yn fwy amlwg yn gwahaniaethu rhwng eu gweithgareddau rheoledig a heb eu rheoleiddio. Yn dilyn hyn, mae llai o ddefnyddwyr yn cysylltu â ni am weithgaredd hawliadau heb eu rheoleiddio gan gwmnïau rheoli hawliadau.

Rydym yn cryfhau ein fframwaith adrodd cwynion a byddwn yn ymgynghori ar reolau newydd y flwyddyn ariannol hon i olrhain yn well pa gwmnïau sy'n derbyn y nifer fwyaf o gwynion. Bydd hyn yn ein galluogi i sylwi ar niwed yn gynt a gwneud penderfyniadau cyflymach am ymyrryd.



Eleni fe wnaethom adolygu digonolrwydd cyfalaf a phrosesau asesu risg

195

o gwmnïau mawr ar draws

34 **o gwmnïau rhiant.**

Lleihau niwed o fethiant cwmnïau

Rydym am osgoi methiant afreolus mewn cwmnïau ariannol a lleihau niwed i ddefnyddwyr ac i uniondeb system ariannol y DU. Rydym yn disgwyl i gwmnïau ystyried beth allai wneud iddynt fethu a chynllunio ar ei gyfer.

Ein nod yw adnabod cwmnïau sydd mewn perygl o fethu yn gyflym ac i'r cwmni naill ai unioni'r sefyllfa, dirwyn i ben yn hydoddol neu fynd i ansolfedd mewn ffordd sy'n lleihau niwed i ddefnyddwyr a chyfranogwyr y farchnad. Mae hyn yn cynnwys dychwelyd arian ac asedau cleientiaid mor gyflym, ac yn gyffredinol, â phosibl.

Helpu cwmnïau buddsoddi i addasu i'r drefn ddarbodus newydd

Fe wnaethom helpu cwmnïau buddsoddi i addasu i'r drefn ddarbodus newydd a gyflwynwyd yn 2022. Gwnaethom gynnal adolygiad aml-gwmni, gan nodi meysydd i'w gwella ac ymgysylltu'n uniongyrchol â dros 500 o gynrychiolwyr o gwmnïau, cyrff masnach ac ymgynghoriaeth. Mae hyn yn dilyn ymgysylltiad tebyg a gwblhawyd gennym yn 2023.

Adolygu digonolrwydd cyfalaf cwmnïau

Eleni fe wnaethom adolygu digonolrwydd cyfalaf a phrosesau asesu risg 195 o gwmnïau mawr ar draws 34 o gwmnïau rhiant. Daethom i'r casgliad bod angen iddynt ddal £1bn ychwanegol mewn



cyfalaf a £2.5bn mewn hylifedd dros asesiadau'r cwmnïau eu hunain. Dylai'r cwmnïau hyn bellach fod yn fwy parod i ymgymryd â dirwyn i ben yn drefnus, gan leihau'r risg o niwed dilynol.

Bu gostyngiad bach, ond calonogol, yng nghyfran y cwmnïau sy'n methu â bodloni gofynion adnoddau ariannol, i lawr i 1.4% ym mis Rhagfyr 2023 o'i gymharu â 1.7% y flwyddyn flaenorol.

Diogelu arian ac asedau cleientiaid

Fe wnaethom adolygu mwy na 3,000 o archwiliadau o sut mae cwmnïau gwasanaethau ariannol yn dal ac yn diogelu arian ac asedau cleientiaid. Lle bo angen, gwnaethom ddilyn pryderon penodol gyda chwmnïau unigol ac, mewn rhai achosion, cyfyngu ar fusnes newydd neu weithgarwch rheoledig arall.

Ochr yn ochr â'r gweithgaredd goruchwylio hwn, gwnaethom ymgysylltu â'r diwydiant wedi'i dargedu i gynyddu cydymffurfiad â'n gofynion ar ddal a diogelu arian ac asedau cleientiaid.

Rydym wedi gweithredu ffurflen reoleiddio newydd sy'n ein galluogi i gasglu data gwydnwch ariannol gan 23,000 o gwmnïau

Adnabod methiant posibl cwmnïau yn gynnar

Fel yn Ch4 2023, o'r holl gwmnïau rheoledig a aeth i mewn i broses ansolfedd, roeddem wedi adnabod 52.8% yn y 12 mis blaenorol fel rhai sydd mewn perygl o fethu neu fod â lefelau isel o wydnwch ariannol.

Rydym wedi gweithredu ffurflen reoleiddio newydd sy'n ein galluogi i gasglu data gwydnwch ariannol gan 23,000 o gwmnïau. Trwy ddefnyddio'r set ddata hon fel rhan o'n system brysbennu awtomataidd, gallwn adnabod pryderon gyda gwydnwch ariannol cwmnïau yn gynt a, lle bo'n briodol, ymyrryd yn gynnar.

Gwella Goruchwylio Cynrychiolwyr Penodedig (ARs)

Goruchwylio rhagweithiol i leihau risg defnyddwyr

Rydym yn amcangyfrif bod tua 34,000 o unigolion neu gwmnïau sy'n gweithredu fel ARs sy'n cynnig gwasanaethau ariannol neu gynhyrchion o dan gyfrifoldeb cwmnïau awdurdodedig (a elwir yn benaethiaid). Mae'r prif gwmnïau hyn yn gyfrifol am sicrhau bod eu cynrychiolwyr yn cydymffurfio â'n rheolau. Ein nod yw lleihau'r risg i ddefnyddwyr o gael eu camarwain neu eu cam-werthu trwy sicrhau bod y prif gwmnïau hyn yn darparu goruchwyliaeth gryfach. Mae cynnydd wedi bod ond mae lle i wella o hyd.

Cynhaliwyd ymgyrch alwadau i dros

250 o gwmnïau

tua 10% o'r boblogaeth prif gwmnïau, a chynhaliwyd asesiadau dwfn o 23 o gwmnïau ar ddechrau 2024

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom ymgysylltu'n rhagweithiol â phrif gwmnïau i sicrhau eu bod yn ystyried rheolau a chanllawiau newydd a gyflwynwyd gennym ym mis Rhagfyr 2022. Cynhaliwyd ymgyrch alwadau i dros 250 o gwmnïau, tua 10% o'r boblogaeth prif gwmnïau, a chynhaliwyd asesiadau dwfn o 23 o gwmnïau ar ddechrau 2024. Roedd hyn yn cynnwys holiaduron ffôn, galwadau fideo a cheisiadau am wybodaeth. Er bod y rhan fwyaf o gwmnïau'n cymryd camau i fynd i'r afael â'n gofynion, ni allai pob cwmni ddangos adolygiadau blynyddol neu hunanasesiadau digonol.

Data i wella ymyriadau

Rydym yn gwneud gwell defnydd o ddata i dargedu ein hadnodd ar y prif gwmnïau risg uchaf a'u ARs. Yn ystod 2023/24, mae ein hymyriadau goruchwylio wedi gweld penaethiaid yn terfynu perthnasoedd â thua 300 ARs Cyflwynol a 350 ARs Llawn, gan helpu i liniaru niwed gwirioneddol neu bosibl i ddefnyddwyr. Fe wnaethom hefyd:

- atgoffa pob prif gwmni o'u rhwymedigaethau i gael yr Yswiriant Indemniad Proffesiynol cywir sy'n cynnwys gweithgareddau ei ARs ac yn pwysleisio'r gofyniad i brif gwmnïau gynnal adnoddau ariannol digonol gan ystyried gweithgareddau eu ARs
- adolygu sampl o froceriaid credyd gydag ARs a, lle bo angen, sicrhau nad oeddent yn penodi ARs nes eu bod yn bodloni ein gofynion

Gwella safonau goruchwylio


Rydym yn cynnal safonau cadarn ar gyfer prif gwmnïau newydd a phresennol. Yn 2023, cynyddodd cyfradd tynnu'n ôl hysbysiadau apwyntiadau ARs i 5.9% o 1.6% yn 2022. Fe wnaeth y gyfradd gwrthod, tynnu'n ôl a nacau ceisiadau i gyflawni swyddogaethau rheoledig ar gyfer AR fwy na dyblu, i 6.5% o 2.8% y flwyddyn flaenorol.

Dangosodd arolwg fod 63% o brif gwmnïau'n credu bod goruchwylio ARs wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd ein gweithredoedd, i fyny o 56% y llynedd. Mae data cwynion yn dangos bod y bwlch rhwng prif gwmnïau a rhai nad ydynt yn brif gwmnïau wedi lleihau'n sylweddol yn 2023. Mae hyn yn awgrymu bod prif gwmnïau'n cymryd camau i wella eu goruchwyliaeth AR ers dechrau'r strategaeth AR.

Fe wnaethom hefyd gefnogi gwaith y Trysorlys a'i Alwad am Dystiolaeth, a ddaeth i ben ar 3 Mawrth 2022, i asesu a oes angen newidiadau deddfwriaethol ehangach. Byddem yn croesawu cynnydd ar y camau nesaf.

FCA yn dirwyo ED&F Man Capital Markets Ltd £17.2m am fethiannau difrifol

Rydym wedi parhau i weithredu yn erbyn masnachu Cum-Ex, gyda dirwyon gwerth cyfanswm o £22.5m yn cael eu codi erbyn diwedd blwyddyn ariannol 23/24. Ym mis Mehefin 2023, fe wnaethom ddirwyo ED& F Man Capital Markets Ltd £17.2m am sawl methiant, gan gynnwys methiannau goruchwylio difrifol fel gwarchodwr. Galluogodd y methiannau hyn i'w gleientiaid adennill £20.5m mewn treth yn anghyfreithlon. Canfuom nad oedd gan swyddogaeth gydymffurfiad y cwmni yr arbenigedd angenrheidiol ac felly roedd yn darparu lefel annigonol o fonitro ac adolygu masnachu cleientiaid. Ym mis Gorffennaf 2023, dirwyon ni Bastion Capital London Limited £2.5m am fethiannau rheoli troseddau ariannol difrifol, y pedwerydd achos Cum-Ex yn erbyn cwmni brocer. Methodd y cwmni â sylwi ar gyfres o faneri coch masnachu a oedd yn awgrymu'n gryf droseddau ariannol. Rydym hefyd wedi penderfynu dirwyo £5.95m i unigolyn arall mewn achos Cum-Ex arall ac mae hyn wedi cael ei gyfeirio at yr Uwch Dribiwnlys.



Lleihau ac atal troseddau ariannol

Mae troseddau ariannol, gan gynnwys twyll, gwyngalchu arian, osgoi sancsiynau ac ariannu terfysgaeth, yn niweidio defnyddwyr, yn tanseilio hyder mewn marchnadoedd ariannol, yn costio i fusnesau ac yn rhwystro twf economaidd.

Ein nod yw arafu'r twf yn nifer yr achosion a chyfanswm colledion o dwyll buddsoddi a thwyll taliad gwthio awdurdodedig. Rydym am leihau troseddau ariannol drwy leihau gwyngalchu arian trwy gwmnïau gwasanaethau ariannol a gwella effeithiolrwydd goruchwylwyr corff proffesiynol.

Helpu defnyddwyr i adnabod sgamiau

Rydym yn helpu i ddiogelu defnyddwyr drwy ein hymgyrch ymwybyddiaeth – ScamSmart – a'n teclyn rhybuddio. Y llynedd, cafodd 2,158 o bobl a ddefnyddiodd yr offeryn eu rhybuddio am sgamiau posib. Gwnaeth 63% o ddefnyddwyr a wnaeth ein ffonio am sgamiau posibl yn 2023 wneud hynny cyn buddsoddi, i fyny o 58% y flwyddyn flaenorol.

Y nifer uchaf o gyhuddiadau troseddau ariannol mewn blwyddyn

Ers mis Ebrill 2023, rydym wedi penderfynu cyhuddo 21 o unigolion â throseddau ariannol; y nifer uchaf o gyhuddiadau yr ydym wedi'u cyflawni mewn blwyddyn. Fe wnaethom hefyd ddwyn 9 erlyniad llwyddiannus yn erbyn twyllwyr.

Yn 2023, fe wnaethom sicrhau 9 gorchymyn i rewi, 6 yn fwy nag yn 2022, ac atal £21.1m mewn asedau unigolion sy'n destun ymchwiliad. Fe wnaethom hefyd ddirwyo ADM Investor Services International Limited £6.4m am fethiannau rheoli troseddau ariannol difrifol.

Brwydro yn erbyn twyll buddsoddi gyda'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid. Gan weithio gyda'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a'r Ganolfan Genedlaethol Troseddau Economaidd, cynhaliodd yr FCA TechSprint 3 diwrnod a ddaeth â phartneriaid gorfodi'r gyfraith ynghyd i rannu syniadau ac adeiladu atebion technolegol posibl i ganfod twyll buddsoddi yn gynharach. Mae'r gwaith hwn wedi parhau gydag asiantaethau partner. Rydym bellach yn gweithio gyda rhwydwaith IOSCO i rannu mewnwelediad ag ystod o awdurdodaethau fel bod ymdrech ar y cyd i fynd i'r afael â thwyll buddsoddi yn cael ei datblygu.



Rydym yn helpu i ddiogelu defnyddwyr drwy ein hymgyrch ymwybyddiaeth – ScamSmart – a'n teclyn rhybuddio. Y llynedd, cafodd 2,158 o bobl a ddefnyddiodd yr offeryn eu rhybuddio am sgamiau posib.

Unigolyn yn pledio'n euog i dwyllo buddsoddwyr

Yn dilyn erlyniad gan yr FCA, fe blediodd unigolyn yn euog a chafodd ei ddedfrydu i 6 mlynedd yn y carchar am dwyllo tua 240 o fuddsoddwyr yn y DU o dros £19m mewn cynllun Ponzi clasurol. Am dros 5 mlynedd, bu'n gweithredu cynllun buddsoddi twyllodrus trwy honni ei fod yn fasnachwr llwyddiannus, gan fasnachu yn Forex, Mynegeion a Nwyddau trwy gyfrif masnachu lledaenu betio. Addawodd enillion blynyddol i fuddsoddwyr o rhwng 45% a 55% a gwnaeth ddatganiadau masnachu ffug i gefnogi'r hawliadau hyn. Yn ystod y cyfnod hwn, ychydig iawn o fasnachu a wnaeth. Dim ond £1.1m o gronfeydd buddsoddwyr ac adneuodd i'w gyfrifon masnachu a gwnaeth golledion cyffredinol o tua £646,000. Yna defnyddiodd gronfeydd buddsoddwyr i dalu enillion i fuddsoddwyr, ac i gefnogi ei ffordd o fyw moethus. Fe wnaethon ni gychwyn achos atafaelu i gael iawndal i ddioddefwyr.

Tynhau rheolaethau troseddau ariannol

Ers mis Ebrill 2023, gwnaethom gyhoeddi 5 adolygiad o reolaethau troseddau ariannol cwmnïau, i rannu arfer gorau ar draws diwydiant, gan gynnwys adolygiad o reolaethau gwyngalchu arian parod a rheolaethau twyll a thrin cwynion, gan ganolbwyntio ar dwyll taliad gwthio awdurdodedig.

Lleihau gwyngalchu arian trwy'r cwmnïau rydym yn eu goruchwylio

Rydym yn sicrhau bod gan gwmnïau y systemau a'r rheolaethau cywir ar waith cyn eu hawdurdodi, fel nad ydynt yn cael eu defnyddio i hwyluso troseddau ariannol. O'r cwmnïau hynny sy'n gwneud cais i gael eu cofrestru a'u goruchwylio at ddibenion gwyngalchu arian yn unig, cafodd 36% eu gwrthod, eu tynnu'n ôl neu eu nacau o'i gymharu â 21% yn 2021/22.

Cafodd dros 87% o gofrestriadau crypto eu gwrthod, eu tynnu'n ôl neu eu nacau. Rydym yn helpu cwmnïau sy'n gwneud cais am awdurdodiad trwy gyfathrebu ein disgwyliadau a chyhoeddi canllawiau ar arfer da a gwael. Mae hyn yn helpu cwmnïau i ddeall yr hyn sy'n ofynnol - mae gan 44 o gwmnïau crypto gofrestriad gwyngalchu arian erbyn hyn.



O'r cwmnïau hynny sy'n gwneud cais i gael eu cofrestru a'u goruchwylio at ddibenion gwyngalchu arian yn unig, cafodd

36%

eu gwrthod, eu tynnu'n ôl neu eu nacau o'i gymharu â

21% **yn 2021/22**

Gwella effeithiolrwydd goruchwylwyr corff proffesiynol

Eleni, gwnaethom gyhoeddi ein 4ydd asesiad o'r Swyddfa Goruchwylio Gwrth-wyngalchu Arian (OPBAS), sy'n goruchwylio'r goruchwylwyr corff proffesiynol (PBSs) yn y sectorau cyfreithiol a chyfrifyddiaeth. Er bod 6 allan o'r 9 goruchwyliwr a aseswyd yn dangos rhywfaint o welliant yn effeithiolrwydd eu goruchwyliaeth o reolaethau gwrth-wyngalchu arian, nid oedd gwelliannau yn gyson o ran cyflymder na graddfa ar draws pob PBS. Felly, rydym wedi parhau i bwyso am y gwelliannau angenrheidiol mewn effeithiolrwydd.

Arafu twf dioddefwyr twyll a lleihau colledion

Mae ein gwaith, ochr yn ochr â phartneriaid, i rwystro twyll yn y ffynhonnell, addysgu defnyddwyr ar sut i adnabod twyll ac adnabod ac amharu ar y rhai sy'n ymwneud â thwyll yn cael effaith. Arafodd

cyfradd y twf yn nifer y dioddefwyr twyll buddsoddi o 28% yn 2021 i 4.2% yn 2023. Ar ben hynny, gostyngodd y colledion a adroddwyd a ddioddefodd dioddefwyr 40.8% yn 2023, o'i gymharu â 2022, gwelliant sylweddol yn erbyn ein llinell sylfaen o dwf o 53% mewn colledion yn 2021. Yn 2023, cynyddodd achosion twyll APP 12%, sy'n gyfradd twf llawer arafach na'n blwyddyn waelodlin (2021) a welodd dwf o 27%. Gostyngodd colledion i dwyll APP 5%, o'i gymharu â thwf o 39% yn ein blwyddyn waelodlin yn 2021. Mae'n ymddangos bod ein negeseuon cryf i'r diwydiant, yn ogystal â rheolaethau bancio cryfach, yn cael effaith.

Gweithredu pendant ar gam-drin y farchnad

Mae cam-drin yn y farchnad yn tanseilio uniondeb system ariannol y DU, gan erydu hyder a gostwng cyfranogiad, er anfantais i bawb.

Rydym am gynyddu hyder yn uniondeb marchnadoedd y DU, sicrhau bod mynediad at wybodaeth fewnol yn cael ei reoli'n briodol a bod datgeliadau'r farchnad yn amserol ac yn gywir. Dylai fod diwylliant gwrth-gam-drin cryf mewn cwmnïau sydd â systemau a rheolaethau cadarn. Byddwn yn sicrhau ataliaeth effeithiol trwy ystod o sancsiynau goruchwyliol, sifil a throseddol am gamweddau.

Mwy o fonitro o'r incwm sefydlog, arian cyfred a marchnadoedd nwyddau


Mae gennym Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU) gyda'r PRA i gydlynu ein gweithredoedd a chyflawni canlyniadau ar y cyd. Diweddarwyd ein MoU ar 26 Mawrth 2024, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn effeithiol ac i adlewyrchu canlyniadau adolygiad Fframwaith Rheoleiddio y Trysorlys yn y Dyfodol (FRF) a Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2023 (FSMA 2023).

Gall y PRA wahardd unrhyw un o'n gweithredoedd os yw'n credu y gallent fygwth sefydlogrwydd ariannol. Ni ddefnyddiwyd y pŵer hwn yn ystod 2023/24.

Mae'n rhaid i ni gynnal cyfarfodydd blynyddol gydag archwilwyr allanol cwmnïau y mae'r PRA yn nodi eu bod yn bwysig i sefydlogrwydd ariannol y DU. Cynhaliwyd 37 o gyfarfodydd dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gan ddyfnhau ein dealltwriaeth o faterion sy'n effeithio ar y cwmnïau hyn a'n helpu i adnabod tueddiadau.

Gweithio gydag eraill

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPs). Rydym hefyd wedi cytuno ar ffyrdd o weithio gyda'r Rheoleiddiwr Pensiynau, gan gynnwys ein strategaeth rheoleiddio ar y cyd.

Gweithio gyda chyrff rheoleiddio a phroffesiynol

Rydym yn defnyddio fframwaith i arwain cydweithrediad rhyngom ni, yr FOS, yr FSCS, y Rheoleiddiwr Pensiynau a MaPs. Rydym yn defnyddio hwn i ddod o hyd i'r ffordd orau o ddelio â materion a allai gael goblygiadau ehangach ar draws y diwydiant gwasanaethau ariannol. Mae enghreifftiau o'r gwaith a wnaed yn Adroddiad Blynyddol y Fframwaith Goblygiadau Ehangach.

Rydym hefyd yn cydweithio â phartneriaid gorfodi'r gyfraith, megis yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a'r Swyddfa Twyll Difrifol, yn y DU ac yn fyd-eang.

Gweithio gyda chyrff rheoleiddio y tu allan i'r Deyrnas Unedig

Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid rheoleiddio mewn gwledydd eraill i hyrwyddo datblygu a gweithredu safonau rhyngwladol effeithiol. Er enghraifft, fe wnaethom gadeirio gweithgor rhyngwladol blaenllaw IOSCO ar Crypto ac Asedau Digidol a gyflwynodd argymhellion polisi ym mis Tachwedd 2023 i fynd i'r afael ag uniondeb marchnad cryptoasedau a diogelu buddsoddwyr. Mae Pennod 4 yn rhoi mwy o wybodaeth am ein gwaith gyda chyrff rheoleiddio y tu allan i'r DU.

Ymgysylltu â'n paneli

Rydym yn ymgynghori â phaneli statudol annibynnol sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr, cwmnïau a marchnadoedd a reoleiddir wrth ddatblygu ein polisïau a'n penderfyniadau. Maent yn rhoi mewnwelediadau gwerthfawr i ni ac yn helpu i lunio sut rydym yn cyflawni ein hamcanion gweithredol. Mae enghreifftiau o'r flwyddyn hon yn cynnwys:

Marchnadoedd cyfanwerthol

- Eleni, rydym wedi ymgysylltu'n dda â'r Panel Ymarferwyr Marchnadoedd (MPP) a Phanel Ymgynghorol yr Awdurdod Rhestru (LAAP) ar ddatblygu polisi a diwygio rheoleiddiol, ond hefyd ar risgiau i'r farchnad a sganio gorwelion.
- Mae trafodaethau wedi canolbwyntio ar: diwygio rhestru a'r ecosystem ehangach sydd ei hangen i ddenu cwmnïau cyhoeddus newydd yn y DU, tryloywder, ymchwil, hylifedd, ariannu trosoledd, effeithiau'r farchnad o gyfraddau uwch, marchnadoedd dyled sofran, marchnadoedd preifat a cheisio adnabod pocedi o grynodiad.

Hysbysodd ein trafodaethau gyda'r MPP a'r LAAP ein syniadau ymhellach ynghylch sut i gydbwyso ein hamcanion statudol gwahanol, gan gynnwys y cyfaddawd rhwng mwy o archwaeth risg a'n hamcan diogelu defnyddwyr. Mae ail-fframio 'archwaeth risg' wedi ategu peth o'n gwaith, gyda chydnabyddiaeth gyffredinol o awydd iach am risg buddsoddi yn angenrheidiol i gefnogi nodau'r buddsoddwr a sefyllfa'r DU mewn marchnadoedd cyfanwerthol byd-eang. Er mwyn cynnal hyn, mae angen i gyfranogwyr a rhanddeiliaid dderbyn y neges yn gyson y bydd colledion buddsoddiad hefyd yn nodwedd o farchnad fywiog.

Rydym yn ymgynghori â phaneli statudol annibynnol sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr, cwmnïau a marchnadoedd a reoleiddir wrth ddatblygu ein polisïau a'n penderfyniadau.



Dyletswydd Defnyddwyr

Mae ein trafodaethau rheolaidd gyda'r paneli, fel rhan o weithredu'r Ddyletswydd, wedi ein helpu i:

- ymateb i faterion a godwyd a darparu adborth penodol i'r sector i wella'r gefnogaeth i gwmnïau bach, gan gymryd ymagwedd wedi'i theilwra at gyfathrebu
- gweithio'n agos gyda'r FOS i sicrhau bod ein dulliau yn cyd-fynd ac yn osgoi'r potensial ar gyfer cymhwyso anghyson
- ystyried y ffordd orau o integreiddio'r Ddyletswydd i ddatblygiad polisi parhaus ar draws gwahanol feysydd, megis Gofynion Datgelu Cynaliadwyedd, labeli buddsoddi ac wrth ddiweddaru'r drefn rheoli asedau

Adolygiad Ffiniau Canllawiau Cyngor (AGBR)

Mae adborth y paneli wedi llywio ein gwaith ar y cyd â'r Trysorlys i sicrhau y gall defnyddwyr gael yr help a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt, ar gost y gallant ei fforddio, ar yr adeg y maent eu hangen. Mae hyn yn cynnwys:

- mewnbwn ar gasglu tystiolaeth a phrofi defnyddwyr y mae angen eu cynnal i lywio'r cynigion terfynol
- Mewnbwn ar sut y gellid dehongli'r cyngor/canllawiau cyfredol gan gynnwys mewnwelediadau ar siwrneiau defnyddwyr
- sut i sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio newydd yn hyfyw yn fasnachol, yn ddiogel yn y dyfodol ac yn cefnogi arloesedd i gwmnïau

Technoleg fawr ac AI

Rhoddodd y Panel Ymarferwyr, Panel Ymarferwyr Busnes Llai a'r Panel Defnyddwyr fewnwelediadau gwerthfawr ar y canlynol:

- y potensial ar gyfer anghymesuredd data a risg cystadleuaeth gan gwmnïau technoleg mawr sy'n cynnig gwasanaethau ariannol
- y risgiau i wydnwch gweithredol lle mae technoleg fawr yn gyflenwyr trydydd parti hanfodol i wasanaethau ariannol
- y risgiau niwed i ddefnyddwyr o'r ystod o ddata y mae gan gwmnïau fynediad ato

Aelodaeth o'r panel

Rydym wedi mabwysiadu targedau amrywiaeth yn erbyn paneli annibynnol yr FCA (ac eithrio'r panel CBA nad oedd wedi'i ffurfio eto). Yn erbyn y targedau hyn, y ffigurau ar 3 Mawrth 2024 yw:

- Ar draws y paneli annibynnol mae 35% yn fenywod (2 banel a gyrhaeddodd y targed).
- Ar draws y paneli annibynnol, rhagorir ar y targed i o leiaf un swydd uwch gael ei dal gan fenyw.
- Mae pob panel annibynnol yn cyrraedd y targed bod o leiaf un aelod o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae datgelu gwybodaeth am amrywiaeth yn wirfoddol ac mae'r ffigurau a ddarperir yn seiliedig ar yr ymatebion a dderbyniwyd. Adroddir data ar draws pob panel lle byddai datgelu ar sail panel unigol yn arwain at ryddhau gwybodaeth bersonol adnabyddadwy.

Gwnaed penodiadau i'r panel yn ystod y flwyddyn yn unol â Datganiad Polisi FCA ar Benodiadau Panel.

Cael mewnwelediad gan ddefnyddwyr a chwmnïau i lunio ein gwaith

Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â rhwydwaith o 30+ o sefydliadau defnyddwyr, a chyda defnyddwyr yn uniongyrchol, i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed wrth i ni ddatblygu polisi.

Rydym yn cynnal dau arolwg pwysig, prif arolwg Financial Lives a'r Arolwg FCA a'r Panel Ymarferwyr.

Prif arolwg Financial Lives:

- Mae canlyniadau 2020 a 2022 yn deillio o'n prif arolygon sy'n cael eu cynnal bob 2 flynedd ac yn arolygu sampl fawr o ymatebwyr bob tro. Er enghraifft, derbyniodd arolwg 2022 fwy na 19,000 o ymatebion.
- Daw canlyniadau 2023 o arolwg ailgysylltu bob dwy flynedd FLS. Ym mis Mai 2023, gwnaethom ailgysylltu â phob ymatebydd FLS Mai 2022 a oedd wedi cytuno i gael eu gwahodd i gymryd rhan mewn arolwg dilynol. Cymerodd dros 6,000 ran. Gallwn gymharu canlyniadau rhwng y ddau brif arolwg a'r arolwg ailgysylltu oherwydd, yn bwysig, pwysolwyd y data o'r arolygon hyn yn yr un modd â bod yn gynrychioliadol o oedolion y DU. Mae rhai gwahaniaethau methodolegol rhwng prif arolwg 2022 ac arolwg ailgysylltu 2023. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallai'r newidiadau hyn gyfrannu at newidiadau mewn rhai canlyniadau. Gwiriodd yr arolwg ailgysylltu hwn am newidiadau ym mherchnogaeth pobl o gynhyrchion ariannol, yn hytrach nag ail-ofyn pob cwestiwn perchnogaeth cynnyrch. Mae canlyniadau'r arolwg ailgysylltu hwn yn gynrychioliadol o bobl ifanc 19+ oed, oherwydd gwnaethom ailgysylltu ag ymatebwyr 12 mis ar ôl prif arolwg FLS 2022 o oedolion 18+ oed.

- Rydym hefyd yn cyfeirio at arolygon ailgysylltu costau byw Financial Lives (Ionawr 2023 a Ionawr 2024). Yn debyg iawn i'r arolwg ailgysylltu bob dwy flynedd a grybwyllwyd uchod, cynhaliwyd 2 arolwg byr ymhlith ein prif ymatebwyr arolwg Financial Lives 2022, un ym mis Ionawr 2023 (gan dderbyn mwy na 5,000 o ymatebion), a dilyniant ym mis Ionawr 2024 (gan dderbyn mwy na 3,000 o ymatebion). Roedd yr arolygon hyn yn canolbwyntio ar sefyllfa ariannol pobl adeg pob arolwg, ac ar eu canfyddiadau cyffredinol o sut roedd pethau wedi newid ers i gostau byw ddechrau codi.

Arolwg yr FCA a'r Panel Ymarferwyr (blynyddol):

- Mae hyn yn rhoi cyfle i gwmnïau rheoledig ddweud wrthym sut mae ein dull gweithredu yn effeithio arnynt. Gweler yma am fwy o wybodaeth.

Mae arolwg yr FCA a'r Panel Ymarferwyr (blynyddol) yn rhoi cyfle i gwmnïau rheoledig ddweud wrthym sut mae ein dull gweithredu yn effeithio arnynt.

Ein hymateb i argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO)

Rheoleiddio gwasanaethau ariannol: Addasu i Newid

Mae hwn yn ddarn gwerthfawr o waith sy'n cefnogi ein hymdrechion parhaus i addasu a thrawsnewid, a gwella ein darpariaeth fel sefydliad yn barhaus. Gwnaeth yr NAO 4 argymhelliad yn ymwneud â threfniadau atebolrwydd, adrodd allanol ar berfformiad, prosesau gweithredol i reoli graddfa'r newid a chynllunio'r gweithlu strategol. Rydym wedi dechrau gweithredu'r holl argymhellion, gan nodi'r gyd-ddibyniaeth â gwaith rhai o'n partneriaid allanol. Dyma gipolwg o'n cynnydd hyd yn hyn:

- Trefniadau atebolrwydd: Fe wnaethom ni a'r Trysorlys dderbyn yr argymhelliad y dylid adolygu'r trefniadau atebolrwydd newydd a gyflwynwyd gan FSMA 2023 ar y pwynt priodol. Byddwn yn gweithio gyda'r Trysorlys i ystyried pryd y dylid cynnal yr adolygiad hwnnw a sut y bydd yn edrych, gan ystyried ein rhwymedigaethau presennol a'i amserlennu.
- Adrodd allanol ar berfformiad: Ein nod yw gwella'n barhaus yn ein dull gweithredu, yn enwedig ar sut rydym yn egluro ein perfformiad yn allanol fel ei fod yn glir ac yn dryloyw. Rydym yn adolygu'r ffordd yr ydym yn cyflwyno ein metrigau perfformiad i esbonio ein fframwaith a'n metrigau yn allanol yn well.
- Rydym wedi gweithredu prosesau gweithredol i reoli maint ein newid a sicrhau bod gan y busnes y gallu i amsugno'r newid. Rydym hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein Strategaeth drwy drefn lywodraethu a rheoli sy'n darparu argymhellion a mewnwelediadau cynllunio a blaenoriaethu.
- Cynllunio'r gweithlu strategol: Byddwn yn parhau i adeiladu gallu ein gweithlu strategol a datblygu fframwaith cynllunio gweithlu strategol a drafft cyntaf ein cynllun gweithlu strategol.

Pennod 6

Ein Hadran 172

Mae'r adran ganlynol yn disgrifio sut mae'r Bwrdd wedi ystyried adran 172(1)(a) i (f) (a.172) o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae Adran 172(1) yn nodi bod angen i ni ystyried:

- canlyniadau hirdymor ein penderfyniadau
- buddiannau ein gweithwyr
- angen meithrin ein perthynas fusnes â chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill
- effaith ein gweithrediadau ar y gymuned a'r amgylchedd
- dymunoldeb ein bod yn cynnal enw da am safonau uchel o ymddygiad busnes

Ein rhanddeiliaid

Mae ein rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys:

- cyflogeion
- defnyddwyr a sefydliadau defnyddwyr
- cwmnïau ac unigolion a reoleiddir
- seneddwyr
- rheoleiddwyr a phartneriaid rheoleiddio eraill
- cyflenwyr
- y gymuned a'r amgylchedd

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid yn allweddol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan a.172 a chyflawni ein hamcanion statudol.

Mae deall barn a blaenoriaethau pob rhanddeiliad yn ein helpu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, felly mae gennym raglen weithredol o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Yn aml mae gan randdeiliaid gwahanol safbwyntiau gwahanol, ac mae'r Bwrdd yn blaenoriaethu'r angen i gyflawni er budd y cyhoedd wrth benderfynu ar y camau gweithredu priodol.

O ystyried effaith ein penderfyniadau ar fywydau pawb yn y DU, mae ein rhanddeiliaid yn gynyddol yn disgwyl i ni gyflawni ein hamcanion statudol yn wyneb yr amgylchedd economaidd sy'n newid, heriau geowleidyddol ac ehangu ein cylch gwaith yn barhaus.

Ein dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae ein Bwrdd wedi ymrwymo i gyflawni a chynnal safonau uchel o ymddygiad busnes, fel yr eglurir yn ein datganiad Llywodraethu Corfforaethol ym Mhennod 8.

Mae'r gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r arolwg gweithwyr ac ymgysylltu â chynrychiolwyr y Pwyllgor Ymgynghorol Staff
- rhoi cyfle i randdeiliaid holi'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn y Cyfarfod Cyhoeddus Blynyddol
- adolygu canlyniadau'r Arolwg Rhanddeiliaid blynyddol a'r Panel Ymarferwyr ar y Cyd/Arolwg FCA o gwmnïau
- derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gyfrifoldeb corfforaethol a mentrau cynaliadwyedd
- ymgysylltu â'r Comisiynydd Cwynion i gefnogi gweithrediad effeithiol ein Cynllun Cwynion

Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio'r gweithgareddau ymgysylltu hyn a rhai ehangach y Bwrdd ac yn disgrifio sut mae'r rhain wedi ein helpu i sicrhau canlyniadau gwell.

Ein pobl

Ein gweithwyr yw'r allwedd i'n llwyddiant fel rheoleiddiwr ac mae ganddynt ystod eang o gefndiroedd a setiau sgiliau. Ein nod yw hyrwyddo diwylliant cynhwysol. Mae hyn yn dwyn ynghyd sgiliau a safbwyntiau amrywiol i ddatblygu mewnwelediadau, gweithredu'n bendant, ymateb mewn ffordd ystwyth a phendant a gwella ein penderfyniadau er budd y cyhoedd yn barhaus.

Eleni rydym wedi gwella sut rydym yn llywio ac yn ymgynghori â chydweithwyr drwy newidiadau i'n Pwyllgor Ymgynghorol Staff.

Wedi'i lansio yn 2022, mae ein rhaglen Amrywiaeth, Ecwiti a Chynhwysiant (DEI) newydd yn seiliedig ar dystiolaeth a'i nod yw creu amgylchedd lle gall pob cydweithiwr gyflawni eu potensial a chyfrannu'n ystyrlon at ganlyniadau'r FCA.

Mae gan bob un o'n huwch arweinwyr ymrwymiad i gefnogi DEI yn eu hamcanion perfformiad ac rydym wedi sefydlu Grwpiau Cyflenwi Rhanbarthol DEI i sicrhau atebolrwydd dros ddarparu ein rhaglen ar bob lefel ar draws y sefydliad.

Rydym yn parhau i ddal ein hunain yn atebol yn gyhoeddus trwy gyhoeddi data amrywiaeth y gweithlu yn erbyn ein targedau. Yn ogystal, mae ein dangosfwrdd mewnol yn darparu data amrywiaeth a chynhwysiant i'r holl staff y tu hwnt i'n rhwymedigaethau statudol.

Rydym yn gwerthfawrogi rôl grwpiau rhwydwaith wrth godi ymwybyddiaeth, addysgu'r sefydliad a llunio polisi AD, er enghraifft i gefnogi cydweithwyr gyda chyfrifoldebau gofalu. Rydym hefyd yn cefnogi cydweithwyr drwy Raglen Cymorth i Weithwyr a fframwaith llesiant wedi'i ddiweddaru.

Mae ein Bwrdd yn blaenoriaethu ei ymgysylltiad â'n gweithwyr i oruchwylio'u lles a'u pryderon. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd ymgysylltiad y Bwrdd â'n gweithwyr yn cynnwys ystod o gyfarfodydd cydweithiwr ac adrannol a rhaglen o ymweliadau'r Prif Weithredwr â rhwydweithiau a grwpiau gweithwyr.

Defnyddwyr a sefydliadau defnyddwyr

Wrth fynd i'r afael â'n hamcan statudol i ddiogelu defnyddwyr, mae ein Bwrdd yn cydnabod yr effaith y mae ein penderfyniadau'n ei chael ar fywydau beunyddiol pobl ac economi'r DU. Mae hyn yn golygu ei bod yn bwysig ein bod yn ymgynghori â defnyddwyr a chyrff defnyddwyr yn weithredol.

Trwy ein Rhwydwaith Defnyddwyr, ein nod yw gwella ein perthynas a'n hymgysylltiad â sefydliadau defnyddwyr. Mae'r Rhwydwaith yn cynnwys 30 o wahanol sefydliadau defnyddwyr, gan gynnwys elusennau dyled (Money Advice Trust, StepChange), sefydliadau sy'n wynebu defnyddwyr (MoneySavingExpert, Which?) ac elusennau cysylltiedig (megis Age UK, Scope, Shelter).

Rydym hefyd yn ymgysylltu'n flynyddol ag arbenigwyr ar fewnwelediadau, BritainThinks, i arolygu beth mae rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys sefydliadau defnyddwyr, yn ei feddwl am yr FCA a'r gwaith rydym wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r arolwg hwn hefyd yn ein galluogi i edrych yn ôl ar sut mae canfyddiadau wedi newid dros y blynyddoedd ac ailedrych ar heriau penodol o flynyddoedd blaenorol. Mae cyhoeddi'r canfyddiadau hyn yn fewnol yn helpu ein gweithwyr i ddeall canfyddiadau ein rhanddeiliaid ohonom ac wrth gynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae ein cadeirydd ac aelodau ein tîm gweithredol yn cyfarfod yn uniongyrchol â defnyddwyr trwy ymweliadau rhanbarthol rheolaidd. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn trafodaethau bwrdd crwn a fforymau eraill gyda sefydliadau defnyddwyr.

Mae anghenion defnyddwyr yn ganolog wrth i'r Bwrdd wneud penderfyniadau, ac rydym yn eu hystyried mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys:

- Adborth gan y Panel Defnyddwyr a ddarparwyd drwy ymgysylltiad ein Bwrdd mewn cyfarfodydd panel ac adroddiadau misol gan gadeirydd y panel a gyflwynir i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd hefyd yn mynnu bod cynigion polisi yn cael eu trafod gyda'r Panel.
- Adolygiadau ac adborth i bapurau ymgynghori cyn cadarnhau rheolau newydd neu ddiwygiedig.
- Ymgysylltu agored â rhanddeiliaid gyda'r cadeirydd, y prif weithredwr a'r cyfarwyddwyr gweithredol ar sut mae'r FCA wedi cyflawni yn erbyn ei amcanion strategol yn y Cyfarfod Cyhoeddus Blynyddol ar 4 Hydref 2023.

Cwmnïau ac unigolion a reoleiddir

Mae ymddygiad a diwylliant y cwmnïau a'r unigolion rydym yn eu rheoleiddio yn llywio'r canlyniadau i ddefnyddwyr a marchnadoedd. Nod ein hymgysylltiad â chwmnïau yw adnabod niwed posibl, fel y gallwn ei leihau neu ei atal yn gynnar.

Rydym yn cynnal arolwg blynyddol, ar y cyd â'r Panel Ymarferwyr, i ofyn am farn ar draws y sector gwasanaethau ariannol o'n perfformiad fel rheoleiddiwr.

Mae canlyniadau'r arolwg yn rhoi cipolwg ar berfformiad yr FCA dros y flwyddyn ddiwethaf ac ar y gwersi a ddysgwyd. Mae Gweithrediaeth yr FCA a'r Paneli Ymarferwyr yn defnyddio'r canlyniadau i ddeall yn well y materion sy'n effeithio ar bob cwmni, ac i helpu ystyriaethau'r Bwrdd i wella ein gweithrediadau.

Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn diweddariadau rheolaidd am ein hymgysylltiad â chwmnïau ac unigolion a reoleiddir, gan gynnwys canlyniadau ymgynghoriadau a chanfyddiadau o weithgarwch goruchwylio fel adolygiadau thematig.

Mae timau ar draws y sefydliad yn defnyddio ystod eang o ffynonellau i lywio penderfyniadau'r Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys data a gwybodaeth gan gwmnïau a'u cymdeithasau masnach, mewnwelediad a rennir gan sefydliadau rheoleiddio eraill, a gwybodaeth gan ASau a chwythwyr chwiban. Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth o ddigwyddiadau ac arolygon diwydiant i'n helpu i ddeall y materion y mae cwmnïau'n eu hwynebu.

Mae timau a'r Bwrdd hefyd yn ymgysylltu â'r Panel Ymarferwyr, y Panel Ymarferwyr Busnes Llai, y Panel Ymarferwyr Marchnadoedd a Phanel Ymgynghorol yr Awdurdod Rhestru i ddeall eu barn a barn y rhai y maent yn eu cynrychioli.

Seneddwyr

Ers mis Rhagfyr 2019, rydym wedi rhoi tystiolaeth lafar i bwyllgorau seneddol 37 o weithiau - mwy nag unrhyw reoleiddiwr arall yn Senedd 2019-2024.

Er enghraifft, mae ein cadeirydd a'n prif weithredwr yn rhoi tystiolaeth gerbron Pwyllgor Dethol y Trysorlys fel rhan o'i waith craffu parhaus ar ein gwaith mewn gwrandawiad atebolrwydd cyffredinol. Gwnaethom ymgysylltu'n weithredol â Phwyllgor Rheoleiddio Gwasanaethau Ariannol Tŷ'r Arglwyddi, a grëwyd ym mis Ionawr 2024. Fe wnaethom ymddangos 9 gwaith gerbron Pwyllgor Seneddol yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Isod mae manylion y sesiynau tystiolaeth y mae uwch arweinwyr wedi eu mynychu fel tystion yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf:

- 17 Ebrill 2024, Is-bwyllgor Pwyllgor Dethol y Trysorlys ar Reoliadau Gwasanaethau Ariannol, Yswiriant: Matt Brewis
- 28 Chwefror 2024, Pwyllgor Materion Cartref, Twyll: Steve Smart

- 31 Ionawr 2024, Is-bwyllgor Pwyllgor Dethol y Trysorlys ar Reoliadau Gwasanaethau Ariannol, Mynediad at Arian Parod: David Geale, Sarah McKenzie
- 17 Ionawr 2024, Pwyllgor Dethol y Trysorlys, Rhywiaeth yn y Ddinas: Nikhil Rathi, Sarah Pritchard
- 16 Ionawr 2024, Pwyllgor y Bil Diwygio Prydlesi a Rhydd-ddaliadau: Matt Brewis
- 12 Rhagfyr 2023, Pwyllgor Dethol y Trysorlys, Gwaith yr FCA: Nikhil Rathi, Ashley Alder
- 25 Hydref 2023, Pwyllgor Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, Llywodraethu deallusrwydd artiffisial (AI): Jessica Rusu
- 19 Gorffennaf 2023, Pwyllgor Dethol y Trysorlys, Gwaith yr FCA: Nikhil Rathi, Ashley Alder
- 12 Gorffennaf 2023, Is-bwyllgor Pwyllgor Dethol y Trysorlys ar Reoliadau Gwasanaethau Ariannol, Yswiriant adeiladau amlddeiliadaeth: Sheldon Mills, Matt Brewis

Rydym yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r holl bwyllgorau sy'n gwneud cais ac yn ymateb i'w hadroddiadau. Rydym hefyd yn mynychu cyfarfodydd polisi ynghylch deddfwriaeth nad ydynt yn Bwyllgorau Bil ffurfiol.

Fel rhan o'n hatebolrwydd i'r Senedd, rydym hefyd yn ymateb i geisiadau am wybodaeth gan ASau ac arglwyddi, yn ogystal â mynychu a threfnu cyfarfodydd a sesiynau briffio. Rydym hefyd wedi darparu sesiynau briffio seneddol rheolaidd ar bynciau gan gynnwys diwygio marchnadoedd cyfalaf, y Ddyletswydd Defnyddwyr newydd, rheoli asedau, a bancio agored.

Mae ein Bwrdd yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol hwn a wnawn i'r Senedd. Rydym hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Perimedr yn esbonio sut y byddwn yn parhau i weithio gyda'r Trysorlys a'r Senedd ar heriau ein perimedr rheoleiddio presennol.

Llywodraeth, gweinyddiaethau datganoledig a rhanddeiliaid eraill

Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â Gweinidogion ac adrannau'r Llywodraeth. Rydym hefyd yn ymgysylltu ag aelodau o'r Seneddau a Chynulliadau Datganoledig, eu cyrff gweithredol cysylltiedig a chyda chyrff gwleidyddol a rhanddeiliaid eraill.

Er enghraifft, mae aelodau'r Bwrdd yn cyfarfod â'r Comisiynydd Cwynion (y comisiynydd) i drafod eu Hadroddiad Blynyddol i gefnogi gweithrediad effeithiol ein Cynllun Cwynion.

Mae'r Trysorlys yn penodi ein Bwrdd sy'n rheoli ac yn herio ein tîm gweithredol. Mae hyn yn helpu i'n dwyn i gyfrif ac yn helpu i osod ein cyfeiriad fel sefydliad.

Mae'n rhaid i ni ystyried egwyddorion rheoleiddio da wrth gyflawni ein gwaith. Ein nod yw rhoi ystyriaeth i'n penderfyniadau mor glir a thryloyw â phosibl.

Rheoleiddwyr a phartneriaid rheoleiddio eraill

Er mwyn cyflawni ein hamcanion, mae'n rhaid i ni gydweithio â rheoleiddwyr eraill. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i rannu gwybodaeth ac arfer gorau, gwella ffyrdd o weithio ac archwilio materion trawsbynciol.

Yn rhyngwladol, rydym yn ceisio llunio'r agenda reoleiddio fyd-eang a pholisïau ariannol rhyngwladol.

Mae'r Bwrdd yn goruchwylio ein gweithgareddau cydweithredu a chydlynu gyda chymheiriaid rheoleiddio ledled y DU ac yn rhyngwladol. Er enghraifft, mae'r Pwyllgor Goruchwylio yn cyfarfod yn rheolaidd i ddarparu cymorth a chyngor i'r Bwrdd ar ei berthynas â Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol (FOS), y Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS) a'r Rheoleiddiwr Systemau Talu (PSR).

Fel cadeirydd y Fframwaith Goblygiadau Ehangach, rydym yn ymgysylltu â'r FOS, yr FSCS, y Rheoleiddiwr Pensiynau a'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPs) ar faterion a allai gael effaith ehangach ar draws y diwydiant gwasanaethau ariannol.

Rydym yn aelod o Rwydwaith Rheoleiddwyr y Deyrnas Unedig (UKRN). Mae'r UKRN yn dod â rheoleiddwyr at ei gilydd i rannu gwybodaeth ac arfer gorau, archwilio materion trawsbynciol ac adeiladu ffyrdd gwell o weithio. Rydym yn chwarae rhan weithredol yn rhwydweithiau'r UKRN, gan gynnwys grwpiau'r Prif Weithredwyr a'r Cadeiryddion.

Yn yr un modd, rydym yn aelod o Rwydwaith Cystadleuaeth y DU. Mae'r rhwydwaith hwn yn meithrin cydweithredu a rhannu gwybodaeth rhwng yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) a rheoleiddwyr y sector. Rydym yn dal pwerau cyfraith cystadleuaeth ar yr un pryd â'r CMA.

Drwy'r Fforwm Menter Rheoleiddio Gwasanaethau Ariannol (y Fforwm), mae ein Bwrdd yn ymgysylltu â:

- chynrychiolwyr Banc Lloegr (BoE)
- y PRA
- y Rheoleiddiwr Systemau Talu
- yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- y Cyngor Adrodd Ariannol ochr yn ochr â'r Trysorlys fel aelod sylwedydd

Mae aelodau'r Fforwm yn cydweithio i gyhoeddi'r Grid Mentrau Rheoleiddiol. Mae hyn yn nodi'r biblinell reoleiddiol fel y gall y diwydiant gwasanaethau ariannol a rhanddeiliaid eraill gynllunio ar gyfer amseru'r mentrau a allai gael effaith weithredol sylweddol arnynt.

Mae ein Bwrdd hefyd yn ymgysylltu â rheoleiddwyr eraill trwy fentrau cydweithredol fel y Fforwm Cyhoeddus-Preifat AI (AIPPF) a gynhelir ar y cyd â'r BoE. Fel aelod o'r Fforwm Cydweithrediad Rheoleiddio Digidol, rydym yn gweithio'n agos ochr yn ochr â'r:

- Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Y Swyddfa Gyfathrebu

i gefnogi cydweithredu a chydlynu rheoleiddio ar feysydd o bwysigrwydd i'r ddwy ochr mewn marchnadoedd digidol.

Ein cyflenwyr

Rydym wedi ymrwymo i adeiladu perthynas gref ac arloesol gyda'n cyflenwyr.

Er mwyn cyflawni ein hamcanion, rydym yn dibynnu ar oddeutu 1,000 o gyflenwyr. Mae'n rhaid i'r ffordd rydym yn dewis ein cyflenwyr ac yn meithrin perthnasoedd â nhw fod yn unol â'n strategaeth a'n gwerthoedd. Rhaid i ni ddangos bod yr hyn rydyn ni'n ei gaffael yn darparu Gwerth am Arian (VfM) i ni a'n rhanddeiliaid. Rydym yn Awdurdod Contractio o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo materion sy'n ymwneud â chaffael a rheoli cyflenwyr i'r Prif Swyddog Gweithredu (COO) yn unol â Dirprwyaeth yr Awdurdodau Ariannol. Mae'r COO drwy'r Prif Swyddog Caffael (CPO) yn sicrhau:

- ein bod yn prynu'n gyfrifol ac yn cadw at ein Polisi Caffael Moesegol
- ein bod yn cyhoeddi Datganiad blynyddol ar Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl ac yn cyflawni ei ymrwymiadau

Rydym yn adolygu telerau ac amodau cyflenwyr yn rheolaidd. Ym mis Ebrill 2024, gwnaethom ddiweddaru ein Cod Ymddygiad Cyflenwyr i egluro ein disgwyliadau, gan gynnwys y rhai ar:

- newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd
- amrywiaeth, tegwch, a chynhwysiant
- cyfreithiau hawliau dynol a chyflogaeth
- ymddygiad moesegol a thriniaeth barchus
- deallusrwydd artiffisial (AI)

Ein cymuned a'r amgylchedd

Mae dinasyddiaeth gorfforaethol dda a chyfrifoldeb corfforaethol yn rhannau pwysig o'n hunaniaeth fel cyflogwr a rheoleiddiwr. Fel cyflogwr cyfrifol, rydym yn ystyried effeithiau:

- cymdeithasol
- amgylcheddol
- ariannol

ein penderfyniadau a'n gweithredoedd a'n nod yw cyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned ehangach a'n hamgylchedd.

Mae'r hyn rydyn ni'n ei ddysgu o hyn yn ein gwneud ni'n rheolydd gwell. Mae'r Bwrdd, ynghyd â'n Pwyllgor Gwaith, yn goruchwylio ein strategaethau ymgysylltu â'r gymuned a chynaliadwyedd.

Trwy ein rhaglen Cyfrifoldeb Corfforaethol, gall ein pobl wirfoddoli ar gyfer achosion pwysig ledled y DU, codi arian i'n partneriaid elusennol, cymryd rhan yn ein rhaglen gyfreithiol pro bono, a chefnogi ysgolion lleol i ddatblygu sgiliau, hyder a gwytnwch myfyrwyr trwy ein rhaglen flaenllaw, Inspiring Futures.

Rydym hefyd yn rhedeg ein 'Her y Prif Weithredwr', sy'n gweld ein cydweithwyr gyrfaoedd cynnar yn gweithio ar brosiectau effaith gymdeithasol yn ein cymuned leol. Ers lansio'r rhaglen yn 2010, rydym wedi gweithio gyda dwsinau o elusennau a phartneriaid cymunedol.

Mae ein Is-adran Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG) yn parhau i integreiddio ystyriaethau ESG ar draws y ffordd rydym yn rheoleiddio ac yn gweithredu.

Mae hyn wedi cynnwys ffactora materion ESG yn ein Fframwaith Rheoli Risg FCA i sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig ag ESG o niwed i ddefnyddwyr a marchnadoedd yn cael eu hystyried yn y ffordd yr ydym yn goruchwylio'r diwydiant gwasanaethau ariannol.

Gosododd diweddariad Strategaeth Cyllid Gwyrdd y Llywodraeth, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023, weledigaeth i'r DU ddod y 'lle gorau yn y byd ar gyfer codi cyfalaf pontio'. Bydd Adolygiad y Farchnad Gyllid Pontio (TFMR), a lansiwyd ym mis Ionawr 2024, yn allweddol i ddeall beth mae angen i'n system gwasanaethau ariannol ei wneud i gyflawni'r nod hwn. Rydym wedi defnyddio'r fframwaith hwnnw wrth ddatblygu ein cynllun pontio sero net ein hunain - datblygiad mawr i ni yn ein taith i fod yn sefydliad mwy cynaliadwy.

Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun pontio ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol hwn; gellir ei ddarllen ochr yn ochr â'r datgeliadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a'n Hadroddiad Cynaliadwyedd Amgylcheddol.

Rydym hefyd yn gweithio'n helaeth gyda'n cymheiriaid rhyngwladol yn cynnal arweinyddiaeth y DU, gan ymgorffori safonau rhyngwladol, ac annog rhyngweithrededd rhwng y DU a chyfundrefnau eraill. Mae'r gwaith hwn yn datblygu ein hamcan cystadleurwydd. Mae hyn yn cynnwys parhau yn ein rôl fel Is-gadeirydd Tasglu Cyllid Cynaliadwy IOSCO a chyd-arwain ei ffrwd waith Adrodd Corfforaethol.

Rydym wedi arwain gwaith o fewn y Rhwydwaith Arloesi Ariannol Byd-eang (GFIN), fel rhan o fenter profi trawsffiniol gyda rheoleiddwyr eraill, i adnabod sut y gall technoleg wirio hawliadau cynnyrch sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd a chael eu defnyddio i adnabod enghreifftiau o wyrddgalchu.

Fel y nodwyd gennym yn ein Datganiad Polisi Amgylcheddol, rydym yn gweithio'n weithredol gyda'n cyflenwyr i gyflawni ein hymrwymiad i arferion amgylcheddol cadarn. Mae'r gwaith hwn yn rhan allweddol o'n cynllun pontio.

Darllenwch fwy am ein gwaith cynaliadwyedd amgylcheddol yn ein Cynllun Pontio Sero Net, Adroddiad Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn Atodiad 4 a datgeliadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Penderfyniadau Bwrdd a chymryd safbwyntiau rhanddeiliaid i ystyriaeth

Fel y trafodwyd yn gynharach, ystyriodd ein Bwrdd farn a diddordebau ystod eang o randdeiliaid yn ystod 2023/2024.

Mae FSMA hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ymgynghori'n gyhoeddus â'r diwydiant, defnyddwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb ar ein rheolau a'n canllawiau cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd a'u cyhoeddi yn ein Llawlyfr.

I lywio ein proses o wneud penderfyniadau, mae unrhyw newid arfaethedig i'n Llawlyfr yn cyd-fynd â:

- dadansoddiad cost budd (fel sy'n ofynnol gan FSMA)
- Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (EIA)
- arolygon defnyddwyr
- dulliau dadansoddi eraill

i asesu'r costau a'r buddion rydym yn eu disgwyl o'r newid. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod unrhyw faich neu gyfyngiad a osodir gennym yn gymesur â'r buddion a ddisgwyliwn.

Penderfyniadau allweddol y Bwrdd yn ystod 2023/2024	
Gweithredu'r Ddyletswydd Defnyddwyr Newydd	Ym mis Ebrill 2023, trafododd y Bwrdd y dull arfaethedig o oruchwylio a gorfodi'r Ddyletswydd Defnyddwyr Newydd (y Ddyletswydd newydd), gan gynnwys sut y byddai hyn yn cael ei gyfleu'n allanol. Mae'r Ddyletswydd newydd yn gosod safonau uwch a chliriach o ran diogelu defnyddwyr ar draws gwasanaethau ariannol ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau roi anghenion eu cwsmeriaid yn gyntaf.
Safonau Gwasanaeth Gweithredu Awdurdodiadau	Ym mis Ebrill 2023, cytunodd y Bwrdd ar newidiadau i adrodd am fertigau gwasanaeth gweithredu awdurdodiadau i gynyddu tryloywder ac ategu mwy o graffu ar y porth. Mae'r FCA am sicrhau mai'r DU yw'r lle gorau yn y byd i wasanaethau ariannol ffynnu. Mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon tra'n cynnal safonau uchel i ddiogelu cwsmeriaid ac i hybu enw da marchnad y DU.
Gwella Marchnadoedd Eilaidd Ecwiti	Ym mis Ebrill 2023, cymeradwyodd y Bwrdd y rheolau a'r Datganiad Polisi ar newidiadau i safonau technegol ac adborth cryno i CP22/12. Mae'r gwaith hwn yn ceisio gwella ansawdd gweithredu i fuddsoddwyr trwy ostwng cost masnachu, lleihau effaith y farchnad ac yn y pen draw cynyddu hylifedd. Mae hefyd yn ceisio gwella tryloywder ôl-fasnach.

Penderfyniadau allweddol y Bwrdd yn ystod 2023/2024	
Datganiad Polisi Pecynnau Dyled	Ym mis Mai 2023, cymeradwyodd y Bwrdd reolau i effeithio ar y gwaharddiad ar becynnau dyledion sy'n derbyn ffioedd atgyfeirio a chytunodd i gyfnod gweithredu o 4 mis er mwyn cydbwyso'r risg o niwed i ddefnyddwyr a chymryd i ystyriaeth yr effaith ar gwmnïau. Mae'r gwaith hwn yn ceisio dileu cymhelliant cryf i ddarparwyr dyledion gynnig cyngor nad yw'n ystyried budd gorau'r cwsmer neu nad yw'n briodol i amgylchiadau unigol y cwsmer.
Hyrwyddiadau ariannol Cryptoasedau	Ym mis Mai 2023, cymeradwyodd y Bwrdd reolau a Datganiad Polisi a oedd bron yn derfynol ar gyfer personau awdurdodedig a busnesau crypto cofrestredig a chyhoeddi Datganiad Polisi ar hyrwyddiadau ariannol cryptoasedau. Roedd hyn yn ceisio categoreiddio cryptoasedau fel 'Buddsoddiadau Marchnad Dorfol Cyfyngedig' a chymhwyso'r cyfyngiadau cysylltiedig ar sut y gellir eu marchnata i ddefnyddwyr y DU. Cymeradwyodd y Bwrdd y rheolau a oedd bron yn derfynol ym mis Mehefin 2023.
Offeryn Rheolau Fforddiadwyedd Morgais (Diwygio) 2023	Ym mis Mehefin 2023, cymeradwyodd y Bwrdd reolau i weithredu'r Siarter Morgeisi. Nod y newidiadau sy'n cyd-fynd â'r Llawlyfr yw sicrhau lefel briodol o ddiogelwch i ddefnyddwyr trwy alluogi i gwmnïau benthyg gynnig gostyngiadau cyflym dros dro i'w cwsmeriaid mewn taliadau ac i gwsmeriaid wneud dewis gwybodus ar eu hopsiynau.
Ymgynghoriad y Cynllun Cwynion	Ym mis Mehefin 2023, cymeradwyodd y Bwrdd newidiadau i'r Cynllun Cwynion (y Cynllun) yn dilyn ymgynghoriad. Mae'r newidiadau hyn yn ceisio ei gwneud yn haws i achwynwyr ddeall sut mae'r Cynllun yn gweithio a beth i'w ddisgwyl ganddo.
Strategaeth Buddsoddiadau Defnyddwyr	Ym mis Medi 2023, cymeradwyodd y Bwrdd gyhoeddi diweddariad ar gynnydd yn erbyn y ffrydiau gwaith a'r canlyniadau yn y Strategaeth Buddsoddiadau Defnyddwyr a lansiwyd ym mis Medi 2021. Mae'r strategaeth yn ceisio galluogi i ddefnyddwyr wneud penderfyniadau buddsoddi effeithiol gyda'r canlyniadau a'r cynlluniau gwaith cysylltiedig sydd bellach wedi'u hymgorffori yn Strategaeth ehangach yr FCA. Cytunodd y Bwrdd felly y byddai canlyniadau'r dyfodol yn cael eu hadrodd yn yr Adroddiad Blynyddol.

Penderfyniadau allweddol y Bwrdd yn ystod 2023/2024	
Gofynion Datgelu Cynaliadwyedd (SDR) a labeli buddsoddi	Ym mis Tachwedd 2023, cymeradwyodd y Bwrdd reolau a chanllawiau ac i helpu defnyddwyr i lywio'r farchnad ar gyfer cynhyrchion buddsoddi cynaliadwy.
Effeithiolrwydd marchnadoedd sylfaenol	Ym mis Rhagfyr 2023, ystyriodd y Bwrdd y diwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Rhestru fel rhan o'r Adolygiad Effeithiolrwydd Marchnadoedd Sylfaenol ar gyfer ymgynghori. Mae'r cynigion yn ceisio creu trefn restru symlach, fwy seiliedig ar ddatgelu gyda'r nod o helpu i hybu twf a chystadleurwydd y DU trwy wneud y drefn yn fwy deniadol i ystod ehangach o gwmnïau. Dylai hyn hefyd ddarparu mwy o gyfleoedd i fuddsoddwyr, tra'n parhau i gadw safonau datgelu uchel fel bod cyfranddalwyr yn cadw'r gallu i weithredu stiwardiaeth a hawliau eraill i ddylanwadu ar ymddygiad y cwmni.
Fframwaith Tâp Cyfunol y DU	Ym mis Rhagfyr 2023, cymeradwyodd y Bwrdd reolau a Datganiad Polisi ar fframwaith tâp cyfunol (CT) y DU ar gyfer bondiau. Mae'r gwaith yn ceisio hyrwyddo data marchnad rhatach, o ansawdd uwch a mwy hygyrch i'w ddefnyddwyr trwy hwyluso creu tâp cyfunol ar gyfer bondiau.



Nikhil Rathi, Prif Weithredwr



12 Endeavour Square Llundain E20 1JN
Ffôn: +44 (0)20 7066 1000
Gwefan: www.fca.org.uk
Cedwir pob hawl

E03103696

978-1-5286-4826-4